This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Butetown: Ysgol Gynradd St. Cuthberts, Rhodfa Craiglee

Disgrifiad o Gynnig y Cynllun

Mae'r Cyngor yn hysbysu preswylwyr ynghylch cynlluniau i wneud newidiadau i'r briffordd rhwng Heol Letton a Rhodfa Craiglee.

Cyflwynwyd cynllun Stryd Ysgol yn ddiweddar ar gyfer Ysgol Gynradd St.Cuthbert ar Heol Letton. Wrth ddatblygu'r cynllun hwnnw nodwyd nad oedd troedffordd ddigonol i ddisgyblion yr ysgol ei defnyddio wrth gerdded i ac o Rodfa Craiglee. Mae'r cynllun hwn felly wedi'i ddatblygu i gywiro hyn, a bydd yn golygu adeiladu troedffordd newydd ar Rodfa Craiglee, ynghyd â system unffordd barhaol ar gyfer traffig.

Nod y prosiect yw gwella'r cyfleusterau i gerddwyr wrth nesáu at Ysgol Gynradd St.Cuthbert, a bydd hyn yn galluogi i fwy o deithiau i'r ysgol gael eu gwneud drwy gerdded neu sgwtera. Bydd y mesurau'n creu amgylchedd diogelach i gerddwyr, yn benodol i ddefnyddwyr agored i niwed a disgyblion ysgol, a byddant yn gwella mynediad i'r ardal gymunedol a gwasanaethau bysus.

Cafwyd arian ar gyfer y cynllun hwn trwy grant gan Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru.

Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau sydd gennych ynghylch y cynigion. Rydym yn deall y gallai fod gennych awgrymiadau eraill i wella diogelwch priffordd ar Heol Letton a Rhodfa Craiglee. O ganlyniad i gyfyngiadau ariannol efallai na fydd modd i ni newid y cynlluniau hyn yn sylweddol ar hyn o bryd, ond byddwn yn cadw cofnod o unrhyw awgrymiadau a ddaw i law er mwyn eu cynnwys mewn cynlluniau yn y dyfodol.

Os hoffech wneud unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn, anfonwch e-bost aton ni cyn **10/09/2021** i ProjectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ysgrifennwch i Projectau Trafnidiaeth, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Caerdydd CF10 4UW.

Gwybodaeth ychwnaegol ynghylch mesurau rheoli traffig

Gorchymyn Rheoleiddio Traffig. Cyfyngiadau yw'r rhain, a osodir ar y Briffordd, sy'n cyfarwyddo, rheoli neu wahardd symudiadau defnyddwyr y ffordd. Er enghraifft, cyfyngiadau cyflymder 20 mya. Dim Mynediad. Dim Troi i'r Dde. Traffig Unffordd. Dim Aros. Rhaid i'r rheoliadau hyn fynd trwy broses gyfreithiol hir**.** Os caiff ei gymeradwyo, bydd yr arwyddion neu'r llinellau'n cael eu gosod ar y safle a gall gael ei orfodi gan yr Heddlu neu Swyddogion Gorfodi Sifil.

Cyrbau Gostyngedig. Hon yw'r groesfan cerddwyr symlaf oll, lle gostyngir y lefel rhwng y palmant a'r ffordd gymaint â phosibl er mwyn cynorthwyo defnyddwyr cadair olwyn, pramiau a defnyddwyr eraill sydd ag anawsterau symud. Gosodir pafin botymog arnynt i rybuddio defnyddwyr â nam ar eu golwg nad oes cwrb yn gwahanu'r llwybr cerdded oddi wrth y ffordd.

Rheilen Gwarchod Cerddwyr. Y ffens a ddefnyddir ar ochr y ffordd wrth groesfannau cerddwyr a lleoliadau eraill i gyfeirio cerddwyr ac i'w gwarchod nhw rhag mynd ar y ffordd yn anfwriadol, yn enwedig pan fyddant mewn perygl oherwydd traffig sy'n symud.

Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd
Cardiff Evolving Transport

Ysgol Gynradd Sant Cuthbert
Cynllun Teithio Llesol

Craiglee Drive
Active Travel Scheme

System unffordd newydd o Letton Road i Craiglee Drive
New one-way from Letton Road to Craiglee Drive

Troedffordd newydd
New footway

Croesfan newydd anffurfiol i gerddwyr
New informal pedestrian crossing point

Rheiliau presennol i'w tynnu
Existing railings to be removed



Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i wneud newidiadau i'r briffordd fel y dangosir uchod. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghoriad hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/trafnidiaeth-projectau gan ddefnyddio'r ddolen 'ymgynghoriadau cyfredol'. Os hoffech gyflwyno unrhyw sylwadau ynglyn a'r cynnig hwn, rhowch wybod i ni erbyn **10/09/2021** drwy e-bostio ProjectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ysgrifennwch at Projectau Trafnidiaeth, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW

The Council is consulting on the proposal to make changes to the highway as shown above. Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **10/09/2021** by email to TransportProjects@cardiff.gov.uk or write to Transport Projects, Room 301, County Hall, Cardiff, CF10 4UW